LC407

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru 2002**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ailddeddfu, gydag ambell newid, Reoliadau Addysg (Grantiau Safonau Addysg) (Cymru) 2001.

Mae adran 484 o Ddeddf Addysg 1996 yn galluogi'r Cynulliad i dalu grantiau i awdurdodau addysg lleol mewn perthynas â gwariant sydd o fewn dosbarth neu sydd o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau a wneir gan y Cynulliad. Mae'n rhaid i wariant o'r fath fod yn wariant at ddibenion addysgol, neu mewn cysylltiad a'r fath ddibenion, ac mae'n rhaid iddo ymddangos i'r Cynulliad ei fod yn wariant y dylid annog awdurdodau addysg lleol i'w dynnu.

Mae adran 484 ynghyd ag adran 489 yn cynnwys darpariaeth bellach ynglŷn â'r hyn y gellir darparu ar ei gyfer yn y rheoliadau. Mae'r rheoliadau yn darparu ar gyfer y modd y gellir talu grantiau o dan adran 484 o Ddeddf 1996 ac yn pennu'r meysydd gwariant y mae grantiau yn daladwy ar eu cyfer.

**Rheoliad Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

12 Chwefror 2002